



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 702 (Cy.59)

2007 No. 702 (W.59)

CWN, CYMRU

DOGS, WALES

RHEOLI CWN

CONTROL OF DOGS

**Rheoliadau Gorchmynion Rheoli
Cwn (Darpariaethau Amrywiol)
(Cymru) 2007**

**The Dog Control Orders
(Miscellaneous Provisions) (Wales)
Regulations 2007**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Pennod 1 (rheolaethau ar gwn) o Ran 6 (cwn) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (p. 16) ("Deddf 2005") yn sefydlu cyfundrefn newydd ar gyfer rheoli cwn gan gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned ("awdurdodau"). Mae'r Bennod honno yn galluogi awdurdodau i wneud gorchmynion rheoli cwn mewn perthynas ag unrhyw dir yn eu hardal sydd yn agored i'r awyr, yn ddarostyngedig i fod unrhyw dir wedi'i eithrio drwy orchymyn a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Gorchymyn Rheolaethau ar Gwn (Heb fod yn Gymwys i Dir Dynodedig) (Cymru) 2007 (O.S. 2007 Rhif 702 (W.59) yn dynodi, at ddibenion penodedig, y disgrifiadau a ganlyn o dir fel tir nad yw Pennod 1 o Rhan 6 o Ddeddf 2005 yn gymwys iddo-

Chapter 1 (controls on dogs) of Part 6 (dogs) of the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 (c. 16) ("the 2005 Act") establishes a new system for the control of dogs by county, county borough and community councils ("authorities"). That Chapter empowers authorities to make dog control orders in respect of any land in their area which is open to the air, subject to any land being excluded by order made by the National Assembly for Wales. The Controls on Dogs (Non-application to Designated Land) (Wales) Order 2007 (S.I. 2007 No. 702 (W.59) designates, for specified purposes, the following descriptions of land as land to which Chapter 1 of Part 6 of the 2005 Act does not apply-

- (a) tir a gaiff ei osod at ddefnydd y Comisiynywyr Coedwigaeth o dan adran 39(1) o Ddeddf Coedwigaeth 1967 (p. 10); a
- (b) tir sy'n ffordd, neu'n rhan o ffordd.

- (a) land that is placed at the disposal of the Forestry Commissioners under section 39(1) of the Forestry Act 1967 (c. 10); and
- (b) land which is, or forms part of, a road

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi, mewn perthynas â gorchmynion rheoli cwn a wneir o dan adran 55 o Ddeddf 2005-

These Regulations prescribe, in relation to dog control orders made under section 55 of the 2005 Act-

- (a) y gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan awdurdodau pan maent yn gwneud, yn amrywio neu yn dirymu gorchmynion rheoli cwn (rheoliadau 3 i 6);

- (a) the procedures to be followed by authorities when making, varying and revoking dog control orders (regulations 3 to 6);

- (b) y tramgwyddau y gellir darparu ar eu cyfer mewn gorchymyn rheoli cwn (rheoliad 7(1) a pharagraff 1 o bob un o Atodlenni 1 i 5);
- (c) y cosbau uchaf y gellir eu darparu mewn gorchymyn rheoli cwn mewn perthynas â'r tramgwyddau a ragnodir (rheoliad 7(2));
- (ch) cynnwys a ffurf gorchymyn rheoli cwn (gan gynnwys gorchmynion sy'n diwygio gorchymyn rheoli cwn) (rheoliadau 8(a) a 9 a pharagraff 2 o bob un o Atodlenni 1 i 5 ac Atodlen 6); a
- (d) y dyddiad cynharaf y bydd gorchymyn (gan gynnwys gorchymyn sy'n diwygio gorchymyn rheoli cwn) yn dod i rym arno (rheoliad 10).

Mae mwy o wybodaeth ar Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2005 i'w chael yn y Nodiadau Esboniadol i Ddeddf 2005 sydd ar gael yn http://www.opsi.gov.uk/acts/en2005/ukpgaen_20050016_en.pdf

- (b) the offences which may be provided for in a dog control order (regulation 7(1) and paragraph 1 of each of Schedules 1 to 5);
- (c) the maximum penalties which may be provided for in a dog control order in relation to the prescribed offences (regulation 7(2));
- (d) the content and form of dog control orders (including orders amending a dog control order) (regulations 8(a) and 9 and paragraph 2 of each of Schedules 1 to 5 and Schedule 6); and
- (e) the earliest coming into force date of an order (including an order amending a dog control order) (regulation 10).

Further information on Chapter 1 of Part 6 of the 2005 Act may be found in the Explanatory Notes to the 2005 Act available at http://www.opsi.gov.uk/acts/en2005/ukpgaen_20050016_en.pdf

2007 Rhif 702 (Cy.59)**2007 No. 702 (W.59)****CWN, CYMRU****DOGS, WALES****RHEOLI CWN****CONTROL OF DOGS****Rheoliadau Gorchmynion Rheoli
Cwn (Darpariaethau Amrywiol)
(Cymru) 2007****The Dog Control Orders
(Miscellaneous Provisions) (Wales)
Regulations 2007**

Wedi'u gwneud 6 Mawrth 2007
Yn dod i rym 15 Mawrth 2007

Made 6 March 2007
Coming into force 15 March 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef y person priodol o ran Cymru fel y'i diffinnir yn adran 66(b) o Ddeddf Cymunedau Glân a'r Amgylchedd 2005(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 55(4) a (5), 56(1), (3), (4) a (5) a 67(1) o'r Ddeddf honno.

The National Assembly for Wales, being the appropriate person in relation to Wales as defined in section 66(b) of the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005(1), makes the following Regulations in exercise of the powers conferred upon it by sections 55(4) and (5), 56(1), (3), (4) and (5) and 67(1) of that Act.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cwn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 15 Mawrth 2007.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the Dog Control Orders (Miscellaneous Provisions) (Wales) Regulations 2007.

(2) These Regulations come into force on 15 March 2007.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "Awdurdod" ("*Authority*") yw naill ai prif awdurdod ("*primary authority*") neu awdurdod eilaidd ("*secondary authority*") fel y'i diffinnir yn adran 58 ("*primary and secondary authorities*") o'r Ddeddf;

mae i "awdurdod mynediad" a "tir mynediad" yr ystyr a roddir i "access authority" ac "access land" yn Rhan 1 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(2);

Interpretation

2. In these Regulations-

"access authority" ("*awdurdod mynediad*") and "access land" ("*tir mynediad*") have the meaning they bear in Part I of the Countryside and Rights of Way Act 2000(2);

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005;

"affected land" ("*tir yr effeithir arno*") means the land which is the subject of a dog control order or a proposal for a dog control order;

(1) 2005 p. 16.

(2) 2000 p. 37; am "access authority" gweler adran 1(2) ac am "access land" gweler adran 1(1).

(1) 2005 c. 16.

(2) 2000 c. 37; for "access authority" see section 1(2) and for "access land" see section 1(1).

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cymunedau Glân a'r Amgylchedd 2005;

ystyr "fforwm mynediad lleol" ("*local access forum*") yw fforwm mynediad lleol a sefydlwyd o dan adran 94 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;

ystyr "tir yr effeithir arno" ("*affected land*") yw tir sy'n ddarostyngedig i orchymyn rheoli cwn neu i fwriad i wneud gorchymyn rheoli cwn.

Ymgynghori cyn gwneud gorchymyn rheoli cwn.

3. Cyn gwneud gorchymyn rheoli cwn o dan adran 55 o'r Ddeddf, rhaid i Awdurdod-

- (a) ymgynghori ar ei fwriad i wneud gorchymyn drwy beri cyhoeddi ar ei wefan hysbysiad-
 - (i) sy'n dynodi'r tir yr effeithir arno-
 - (aa) drwy ei ddisgrifio, a
 - (bb) pan fo cyfeiriad yn y gorchymyn y bwriedir ei wneud at fap, drwy gyhoeddi'r map hwnnw;
 - (ii) sy'n dynodi unrhyw dir mynediad a gynhwysir o fewn y tir yr effeithir arno;
 - (iii) sy'n gosod i lawr effaith cyffredinol gwneud y gorchymyn y bwriedir ei wneud;
 - (iv) sy'n datgan y cyfnod a roddir i wneud sylwadau yn ysgrifenedig neu drwy e-bost (sy'n gyfnod nad yw'n llai na 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad pan gaiff yr hysbysiad ei gyhoeddi gyntaf yn unol â'r paragraff hwn);
 - (v) sy'n datgan y cyfeiriad a'r cyfeiriad e-bost lle dylid anfon y sylwadau;
- (b) pan fo hynny'n ymarferol, peri i hysbysiadau o fath y mae'n eu hystyried yn ddigonol gael eu harddangos mewn manau amlwg ar y tir yr effeithir arno neu gerllaw iddo i dynnu sylw aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r tir hwnnw at effaith gwneud y gorchymyn y bwriedir ei wneud.

4. Rhaid i'r Awdurdod roi copïau o'r hysbysiad y cyfeirir ato yn rheoliad 3(a)-

- (a) i unrhyw Awdurdod arall sydd â phwer o dan adran 55 o'r Ddeddf i wneud gorchymyn rheoli cwn mewn perthynas ag unrhyw ran o'r tir yr effeithir arno;
- (b) pan fo unrhyw ran o'r tir yr effeithir arno yn dir mynediad,-
 - (i) i'r awdurdod mynediad ar gyfer y tir mynediad hwnnw;
 - (ii) i'r fforwm mynediad lleol ar gyfer y tir mynediad hwnnw; a
 - (iii) i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, mewn perthynas ag unrhyw ran o'r tir mynediad hwnnw nad yw o fewn Parc Cenedlaethol.

"Authority" ("*Awdurdod*") means either a primary authority ("*prif awdurdod*") or a secondary authority ("*awdurdod eilaidd*") as defined in section 58 (primary and secondary authorities) of the Act;

"local access forum" ("*fforwm mynediad lleol*") means a local access forum established under section 94 of the Countryside and Rights of Way Act 2000.

Consultation before making a dog control order

3. Before making a dog control order under section 55 of the Act, an Authority must-

- (a) consult upon its proposal to make the order by causing to be published on its website a notice-
 - (i) identifying the affected land-
 - (aa) by description, and
 - (bb) where the proposed order refers to a map, by publication of that map;
 - (ii) identifying any access land comprised in the affected land;
 - (iii) setting out the general effect of the proposed order being made;
 - (iv) stating the period within which representations may be made in writing or by e-mail (being a period of not less than 28 days from the date on which the notice is first published in accordance with this paragraph);
 - (v) stating the address and e-mail address to which representations may be sent;
- (b) where practicable, cause to be displayed at conspicuous positions on or near the affected land such notices as it considers sufficient to draw to the attention of members of the public using that land the effect of the proposed order being made.

4. Copies of the notice referred to in regulation 3(a) must be given by the Authority-

- (a) to any other Authority having power under section 55 of the Act to make a dog control order in respect of any of the affected land;
- (b) where any of the affected land is access land, to-
 - (i) the access authority for that access land;
 - (ii) the local access forum for that access land; and
 - (iii) the Countryside Council for Wales, in respect of any of that access land that is not situated in a National Park.

Gweithdrefnau ar ôl gwneud gorchymyn rheoli cwn

5. Ar ôl gwneud gorchymyn rheoli cwn, rhaid i Awdurdod, ymhen dim llai na saith niwrnod cyn y diwrnod y bydd y gorchymyn yn dod i rym arno-

- (a) peri i hysbysiadau o fath y mae'n eu hystyried yn ddigonol gael eu harddangos mewn mannau amlwg ar y tir yr effeithir arno neu gerllaw iddo i dynnu sylw aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r tir hwnnw at y ffaith fod gorchymyn wedi'i wneud ac at effaith gwneud y gorchymyn hwnnw;
- (b) cyhoeddi ar ei wefan-
 - (i) hysbysiad sy'n datgan-
 - (aa) fod y gorchymyn wedi'i wneud,
 - (bb) yn lle y gellir cael copïau ohono;
 - (ii) copi o'r gorchymyn,
 - (iii) copi o unrhyw fap y cyfeirir ato yn y gorchymyn;
- (c) anfon yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (i) o is-baragraff (b) at y personau a bennir yn rheoliad 4.

Diwygio a dirymu gorchymynion rheoli cwn: gofynion gweithdrefnol

6. Mae Rheoliadau 3, 4 a 5 yn gymwys i ddiwygio ac i ddirymu gorchymyn rheoli cwn megis petai'r cyfeiriadau yn y rheoliadau hynny at orchymyn (neu orchymyn y bwriedir ei wneud) yn gyfeiriadau at ddiwygio neu at ddirymu gorchymyn (neu at ddiwygio neu ddirymu gorchymyn y bwriedir ei wneud, yn ôl y digwydd).

Tramgwyddau a chosbau a ragnodir

7.-(1) At ddibenion adran 55(4) o'r Ddeddf, y tramgwyddau a ragnodir yw'r rhai hynny a osodir ym mharagraff 1 o bob un o Atodlenni 1 i 5.

(2) Y gosb sydd i'w gosod mewn perthynas ag unrhyw dramgwydd mewn gorchymyn rheoli cwn, ar gollfarn ddiannod, yw dirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(3) Caiiff gorchymyn rheoli cwn bennu'r amserau neu'r cyfnodau y gellir cyflawni tramgwydd o'u mewn.

Geiriad penodedig i'w ddefnyddio mewn gorchymyn rheoli cwn, a ffurf y gorchymyn

8. Rhaid i Awdurdod sy'n gwneud gorchymyn rheoli cwn-

- (a) wrth ddarparu ar gyfer unrhyw dramgwydd, defnyddio'r geiriad a bennir yn yr Atodlen sy'n gymwys i'r tramgwydd hwnnw (dan y pennawd "tramgwydd"); a

Procedure after making a dog control order

5. After making a dog control order, an Authority must, not less than seven days before the day on which the order is to come into force-

- (a) cause to be displayed at conspicuous positions on or near the affected land such notices as it considers sufficient to draw to the attention of members of the public using that land the fact that an order has been made and the effect of the order having being made;
- (b) publish on its website-
 - (i) a notice stating-
 - (aa) that the order has been made,
 - (bb) the place at which copies of it may be obtained;
 - (ii) a copy of the order,
 - (iii) a copy of any map referred to in the order;
- (c) send the information referred to in paragraph (i) of sub-paragraph (b) to the persons specified in regulation 4.

Amendment and revocation of dog control orders: procedural requirements

6. Regulations 3, 4 and 5 apply to the amendment and revocation of a dog control order as if the references in those regulations to an order (or a proposed order) were references to an amendment or revocation (or a proposed amendment or proposed revocation, as the case may be) of an order.

Prescribed offences and penalties

7.-(1) For the purposes of section 55 of the Act, the prescribed offences are those set out in paragraph 1 of each of Schedules 1 to 5.

(2) The penalty to be provided in relation to any offence in a dog control order is, on summary conviction, a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

(3) A dog control order may specify the times at which, or the periods during which, an offence is to apply.

Specified wording to be used in, and the form of, a dog control order

8. An Authority which makes a dog control order must-

- (a) in providing for any offence, use the wording specified in the Schedule applying to that offence (under the heading "offence"); and

(b) ym mhob peth arall, wneud y gorchymyn yn y ffurf a osodir yn yr Atodlen, neu mewn ffurf sy'n sylweddol gyfatebol.

(b) in all other respects make the order in the form set out in the Schedule, or in a form substantially to the like effect.

Ffurff gorchymyn sy'n diwygio gorchymyn rheoli cwn

9. Rhaid i Awdurdod sy'n diwygio gorchymyn rheoli cwn wneud hynny'n unol ag Atodlen 6.

Dyfodiad gorchymyn rheoli cwn i rym

10. Rhaid i ddyddiad dyfodiad gorchymyn rheoli cwn (gan gynnwys gorchymyn diwygio gorchymyn rheoli cwn) i rym fod dim llai na 14 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad gwneud y gorchymyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

6 Mawrth 2007

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Form of order amending a dog control order

9. An Authority which amends a dog control order must do so in accordance with Schedule 6.

Coming into force of a dog control order

10. The date of coming into force of a dog control order (including an order amending a dog control order) must be not less than 14 days after the date on which the order is made.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

6 March 2007

The Presiding Officer of the National Assembly

D. Elis-Thomas

Y TRAMGWYDD O FETHU Â SYMUD
YMAITH FAW CI A FFURF Y
GORCHYMYN

OFFENCE OF FAILING TO REMOVE DOG
FAECES AND FORM OF ORDER

1

(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3), bydd yn dramgwydd wrth fod â chyfrifoldeb dros gi ar dir y mae gorchymyn rheoli cwn (a ddisgrifir fel "Gorchymyn Baeddu Tir gan Gwn" yn y ffurf a osodir isod) yn gymwys iddo, i beidio â symud ymaith faw a ollyngwyd gan y ci ar unrhyw adeg, neu ar unrhyw adeg yn ystod cyfnodau penodol a ragnodir yn y gorchymyn.

(2) Nid oes tramgwydd yn cael ei gyflawni pan fo gan berson esgus rhesymol dros fethu â symud ymaith y baw, neu os yw perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.

(3) Nid yw'r tramgwydd yn gymwys i berson sydd wedi'i gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Deddf Cymorth Gwladol 1948(1), nac i berson ag arno anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, ei ddehurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario neu i symud teclynnau beunyddiol mewn modd arall, mewn perthynas â chi wedi ei hyfforddi gan Dogs for the Disabled (elusen gofrestredig rhif 700454), Support Dogs (elusen gofrestredig rhif 1088281) neu Canine Partners for Independence (elusen gofrestredig rhif 803680) ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

2

Mewn unrhyw Orchymyn Baeddu Tir gan Gwn, rhaid gosod y tramgwydd o fethu â symud ymaith faw ci i lawr yn llawn fel y'i datgenir yn erthygl 3 yn ffurf y gorchymyn a roddir isod.

3

Ym mhob dim arall, rhaid i Orchymyn Baeddu Tir gan Gwn sy'n darparu ar gyfer y tramgwydd hwnnw fod yn y ffurf a roddir isod, neu mewn ffurf sy'n sylweddol gyfatebol.

1

(1) Subject to sub-paragraphs (2) and (3), it is an offence when being in charge of a dog on land to which a dog control order (described as a "Fouling of Land by Dogs Order" in the form set out below) applies, not to remove faeces deposited by the dog at any time, or at any time during certain periods prescribed in the order.

(2) No offence is committed where a person has a reasonable excuse for failing to remove the faeces, or the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person failing to do so.

(3) The offence does not apply to a person who is registered as a blind person in a register compiled under section 29 of the National Assistance Act 1948(1), or to a person who has a disability which affects that person's mobility, manual dexterity, physical co-ordination or ability to lift, carry or otherwise move everyday objects, in respect of a dog trained by Dogs for the Disabled (registered charity number 700454), Support Dogs (registered charity number 1088281) or Canine Partners for Independence (registered charity number 803680) and upon which that person relies for assistance.

2

In any Fouling of Land by Dogs Order, the offence of failing to remove dog faeces is to be set out in full as stated in article 3 in the form of order given below.

3

In all other respects, a Fouling of Land by Dogs Order providing for that offence is to be in the form given below, or in a form substantially to the like effect.

Ffurfi y Gorchymyn

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005

Rheoliadau Gorchymynion Rheoli Cwn
(Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007/702 (W.59)

Gorchymyn Baeddu Tir gan Gwn ([X](1)) [X](2)

Mae [X] (3), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

1

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar [X](4).

2

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r tir a bennir yn [Yr Atodlen] [Atodlen 1](5).

Y Tramgwydd

3

(1) Os bydd ci yn baw ar unrhyw adeg [yn ystod y cyfnodau a bennir yn Atodlen 2](6) ar dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo a bod person sydd â chyfrifoldeb dros y ci ar y pryd yn methu â symud y baw ci oddi ar y tir ar unwaith, bydd y person hwnnw yn euog o dramgwydd oni bai-

- (a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu
- (b) bod perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.

(2) Nid oes dim yn yr erthygl hon yn gymwys i berson-

- (a) sydd wedi'i gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu

-
- (1) Dynoder, yn benodol neu'n gyffredinol, y tir y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddo.
 - (2) Mewnosoder blwyddyn gwneud y Gorchymyn.
 - (3) Mewnosoder enw'r awdurdod cyntaf neu'r awdurdod eilaidd sy'n gwneud y Gorchymyn.
 - (4) Mewnosoder y dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym arno, sef o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y Gorchymyn.
 - (5) Penner pa un sy'n berthnasol.
 - (6) Penner cyfnodau os mai dim ond yn ystod cyfnodau penodol o'r flwyddyn y mae'r Gorchymyn yn gymwys.

Form of Order

The Clean Neighbourhoods and Environment Act
2005

The Dog Control Orders (Miscellaneous
Provisions) (Wales) Regulations 2007 (SI 2007/702
(W.59))

**The Fouling of Land by Dogs ([X](1)) Order
[X](2)**

The [X](3) hereby makes the following Order:

1

This Order comes into force on [X](4).

2

This Order applies to the land specified in [the
Schedule] [Schedule 1](5).

Offence

3

(1) If a dog defecates at any time[during the periods specified in Schedule 2](6) on land to which this Order applies and a person who is in charge of the dog at that time fails to remove the faeces from the land forthwith, that person shall be guilty of an offence unless-

- (a) that person has a reasonable excuse for failing to do so; or
- (b) the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person failing to do so.

(2) Nothing in this article applies to a person who-

- (a) is registered as a blind person in a register compiled under section 29 of the National Assistance Act 1948; or

-
- (1) Identify, specifically or generally, the land in respect of which the Order applies.
 - (2) Insert year in which Order is made.
 - (3) Insert name of primary or secondary authority making the Order.
 - (4) Insert date Order comes into force, being at least 14 days after making of the Order.
 - (5) Specify whichever is the case.
 - (6) Specify periods if the Order is to apply only during certain periods of the year.

(b) sydd ag anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, ei ddehurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu i symud teclynnau beunyddiol mewn modd arall, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

(3) At ddibenion yr erthygl hon -

- (a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;
- (b) bydd gosod y baw ci mewn cynhwysydd a ddarperir ar y tir at y diben hwnnw, neu ar gyfer gwaredu gwastraff, yn symud ymaith digonol oddi ar y tir;
- (c) ni fydd bod yn anymwybodol o'r baw (p'un ai oherwydd peidio â bod yn y cyffiniau ai peidio), na bod heb declyn i symud y baw ci ymaith neu ddull arall addas o wneud hynny yn esgus rhesymol dros fethu â symud y baw ci ymaith;
- (ch) mae pob un o'r canlynol yn "elusen a ragnodwyd"-
 - (i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestredig rhif 700454);
 - (ii) Support Dogs (elusen gofrestredig rhif 1088281);
 - (iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestredig rhif 803680).

Y Gosb

4

Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan erthygl 3 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol

[Dyddiad]

[Cymal ardystio]

[ATODLEN] [ATODLEN 1](1)

[Manyleb/disgrifiad o'r tir, neu'r tiroedd, y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddo neu iddynt](2)

[ATODLEN 2

[Manyleb o'r amserau neu'r cyfnodau pan fydd y tramgwydd yn gymwys]](3)

(1) Penner pa un sy'n berthnasol.

(2) Dynoder, naill ai'n benodol neu drwy ddisgrifiad, y tir y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddo.

(3) Os yw'n gymwys, cynhwysir Atodlen 2 yn pennu amserau neu gyfnodau.

(b) has a disability which affects that person's mobility, manual dexterity, physical co-ordination or ability to lift, carry or otherwise move everyday objects, in respect of a dog trained by a prescribed charity and upon which that person relies for assistance.

(3) For the purposes of this article-

- (a) a person who habitually has a dog in their possession is taken to be in charge of the dog at any time unless at that time some other person is in charge of the dog;
- (b) placing the faeces in a receptacle on the land which is provided for the purpose, or for the disposal of waste, shall be a sufficient removal from the land;
- (c) being unaware of the defecation (whether by reason of not being in the vicinity or otherwise), or not having a device for or other suitable means of removing the faeces shall not be a reasonable excuse for failing to remove the faeces;
- (d) each of the following is a "prescribed charity"-
 - (i) Dogs for the Disabled (registered charity number 700454);
 - (ii) Support Dogs (registered charity number 1088281);
 - (iii) Canine Partners for Independence (registered charity number 803680).

Penalty

4

A person who is guilty of an offence under article 3 is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

[Date]

[Attestation clause]

[SCHEDULE] [SCHEDULE 1](1)

[Specification/description of land, or lands, to which the Order applies](2)

[SCHEDULE 2

[Specification of times or periods during which the offence is to apply]](3)

(1) Specify whichever is the case.

(2) Identify, either specifically or by description, the land to which the Order applies.

(3) If applicable, include Schedule 2 specifying times or periods.

ATODLEN 2

Rheoliadau 7 ac 8

Y TRAMGWYDD O BEIDIO Â CHADW CI AR DENNYN

A

FFURF Y GORCHYMYN

1

(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), bydd yn dramgwydd wrth fod â chyfrifoldeb dros gi ar dir y mae gorchymyn rheoli cwn (a ddisgrifir fel "Gorchymyn Cwn ar Dennyndyn" yn y ffurf a osodir isod) yn gymwys iddo, i beidio â chadw'r ci ar dennyn neu ar dennyn â'i hyd ar y mwyaf wedi'i ragnodi yn y gorchymyn, yn ystod amserau neu gyfnodau o'r fath ag a gaiff eu rhagnodi.

(2) Nid oes tramgwydd yn cael ei gyflawni pan fo gan berson esgus rhesymol dros fethu â chadw'r ci ar dennyn, neu os yw perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.

2

Mewn unrhyw Orchymyn Cadw Cwn ar Dennyndyn rhaid gosod y tramgwydd o beidio â chadw ci ar dennyn i lawr yn llawn fel y'i datgenir yn erthygl 3 yn ffurf y gorchymyn a roddir isod.

3

Ym mhob dim arall, rhaid i Orchymyn Cadw Cwn ar Dennyndyn sy'n darparu ar gyfer y tramgwydd hwnnw fod yn y ffurf a roddir isod, neu mewn ffurf sy'n sylweddol gyfatebol.

SCHEDULE 2

Regulations 7 and 8

OFFENCE OF NOT KEEPING A DOG ON A LEAD

AND

FORM OF ORDER

1

(1) Subject to sub-paragraph (2), it is an offence when being in charge of a dog on land to which a dog control order (described as a "Dogs on Leads Order" in the form set out below) applies, not to keep the dog on a lead or on a lead of a maximum length prescribed in the order, during such times or periods as may be prescribed.

(2) No offence is committed where a person has a reasonable excuse for failing to keep the dog on a lead, or the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person failing to do so.

2

In any Dogs on Leads Order, the offence of not keeping a dog on a lead is to be set out in full as stated in article 3 in the form of the order given below.

3

In all other respects, a Dogs on Leads Order providing for that offence is to be in the form given below, or in a form substantially to the like effect.

Ffur y Gorchymyn

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005

Rheoliadau Gorchymynion Rheoli Cwn
(Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007 (OS
2007/702 (W.59)

Gorchymyn Cwn ar Dennynd ([X](1)) [X](2)

Mae [X] (3), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a
ganlyn:

1

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar [X](4).

2

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r tir a bennir yn
[Yr Atodlen] [Atodlen 1](5).

Y Tramgwydd

3

(1) Bydd person sydd â chyfrifoldeb dros gi yn
euog o dramgwydd [ar unrhyw adeg][yn ystod yr
[amserau] [cyfnodau] a bennir yn Atodlen 2](6), ar
unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo,
os na fydd y person hwnnw yn cadw'r ci ar dennyn
[heb fod yn hwy na [X o centimetrau / o fetrau](7), oni
bai-

- (a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros
fethu â gwneud hynny; neu
- (b) bod perchennog y tir, meddiannydd y tir neu
berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth
dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n
benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud
hynny.

(2) At ddibenion yr erthygl hon cymerir bod
person y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb
dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg onid oes rhyw berson
arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;

-
- (1) Dynoder, yn benodol neu'n gyffredinol, y tir y mae'r Gorchymyn yn
gymwys iddo.
 - (2) Mewnosoder blwyddyn gwneud y Gorchymyn.
 - (3) Mewnosoder enw'r awdurdod cyntaf neu'r awdurdod eilyddol sy'n
gwneud y Gorchymyn.
 - (4) Mewnosoder y dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym arno, sef o leiaf
14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y Gorchymyn.
 - (5) Penner pa un sy'n berthnasol.
 - (6) Penner pa rai bynnag o'r opsiynau mewn cromfachau sgwar sy'n
gymwys.
 - (7) Os yw hyn i gael ei bennu, mewnosoder uchafswm hyd y tennyn.

Form of Order

The Clean Neighbourhoods and Environment Act
2005

The Dog Control Orders (Miscellaneous
Provisions) (Wales) Regulations 2007 (SI 2007/702
(W.59)

The Dogs on Leads ([X](1)) Order [X](2)

The [X](3) hereby makes the following Order:

1

This Order comes into force on [X](4).

2

This Order applies to the land specified in [the
Schedule] [Schedule 1](5).

Offence

3

(1) A person in charge of a dog shall be guilty of
an offence if, [at any time][during the [times] [periods]
specified in Schedule 2](6), on any land to which this
Order applies that person does not keep the dog on a
lead[of not more than [X centimetres / metres] in
length](7), unless-

- (a) that person has a reasonable excuse for failing
to do so; or
- (b) the owner, occupier or other person or
authority having control of the land has
consented (generally or specifically) to that
person failing to do so.

(2) For the purposes of this article a person who
habitually has a dog in their possession is taken to be
in charge of the dog at any time unless at that time
some other person is in charge of the dog.

-
- (1) Identify, specifically or generally, the land in respect of which the
Order applies.
 - (2) Insert year in which Order is made.
 - (3) Insert name of primary or secondary authority making the Order.
 - (4) Insert date Order comes into force, being at least 14 days after
making of the Order.
 - (5) Specify whichever is the case.
 - (6) Specify whichever of the options in square brackets is to apply.
 - (7) If this is to be specified, insert maximum length of lead.

Y Gosb

4

Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan erthygl 3 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol

[Dyddiad]

[Cymal ardystio]

[ATODLEN] [ATODLEN 1](1)

[Manyleb/disgrifiad o'r tir, neu'r tiroedd, y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddo neu iddynt](2)

[ATODLEN 2

[Manyleb o'r amserau neu'r cyfnodau pan fydd y tramgwydd yn gymwys]](3)

ATODLEN 3

Rheoliadau 7 ac 8

Y TRAMGWYDD O BEIDIO Â RHOI CI AR DENNYN A'I GADW ARNO, DRWY GYFARWYDDYD A

FFURF Y GORCHYMYN

1

(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), bydd yn dramgwydd wrth fod â chyfrifoldeb dros gi ar dir y mae gorchymyn rheoli cwn yn gymwys iddo (a ddisgrifir fel "Gorchymyn Cwn ar Dennyndrwy Gyfarwyddyd" yn y ffurf a osodir isod), i beidio â rhoi'r ci ar dennyn, ac wedi hynny ei gadw arno, neu ar dennyn nad yw'n hwy na'r hyd mwyaf a ragnodir yn y gorchymyn, yn ystod amserau a chyfnodau a gaiff eu rhagnodi, pan geir cyfarwyddyd i wneud hynny gan swyddog awdurdodedig o Awdurdod.

(2) Nid oes tramgwydd yn cael ei gyflawni pan fo gan y person hwnnw esgus rhesymol dros fethu â chydymffurfio â chyfarwyddyd i roi ci ar dennyn a'i gadw arno, nac os yw perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.

